# HUDSON-WILLIAMS, THOMAS (1873 - 1961), ysgolhaig a chyfieithydd

**Enw:** Thomas Hudson-williams
**Dyddiad geni:** 1873
**Dyddiad marw:** 1961
**Priod:** Gwladys Hudson-Williams (née Williams)
**Rhiant:** R. Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgolhaig a chyfieithydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Thomas Parry

Ganwyd 4 Chwefror 1873, yn fab i R. Williams, Caernarfon. Addysgwyd ef yn ysgol Friars, Bangor, Coleg y Brifysgol, Bangor, a Phrifysgol Greifswald. Cymerodd radd Prifysgol Llundain yn y clasuron, Ffrangeg a Chelteg yn 1894, a D.Lit. yr un brifysgol yn 1911. Penodwyd ef yn ddarlithydd cynorthwyol mewn Ffrangeg ac Almaeneg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, yn 1896, ac yn y clasuron yn 1900. Yn 1904 penodwyd ef yn Athro Groeg, a bu yn y swydd nes ymddeol yn 1940.

Profir ei ddiddordeb yn yr ieithoedd Celtaidd gan erthygl yn *Zeitschrift für celtische Philologie*, 1898, ' Cairdius Aenias ocus Didaine (The love of Aeneas and Dido) ', testun Gwyddelig o lawysgrif Ballymote, gyda chyfieithiad a geirfa. Ar ôl ymroi i'r iaith Roeg cyhoeddodd *The Elegies of Theognis* (1910), ac *Early Greek elegy* (1926), ac yn Gymraeg *Groeg y Testament Newydd* (1927) a *Y Groegiaid gynt* (1932). Yr oedd ei wybodaeth o bynciau ieithyddol yn eang, fel y dengys dau lyfr arall o'i waith, sef *A short introduction to the study of comparative grammar* (1935) a *A short grammar of Old Persian* (1936). Ar ôl ymddeol aeth ati i ddysgu Rwseg, a chyfieithodd nifer o glasuron yr iaith honno i'r Gymraeg, ac yn eu mysg *Storïau o'r Rwseg* (1942), *Carcharor y Cawcasws*, Tolstoi (1943), *Cerddi o'r Rwseg* (1945), *Merch y capten*, Pwshcin (1947). Cyhoeddwyd dau gyfieithiad arall ar ôl ei farw: *Pedair drama fer o'r Rwseg* (1964) a *Y tadau a'r plant*, Twrgenieff (1964). Cyhoeddodd nifer helaeth iawn o ysgrifau ar lenyddiaethau tramor a chyfieithiadau mewn pob math o gylchgronau a newyddiaduron yng Nghymru. Ceir rhestr o'i weithiau yn *Jnl. W.B.S.*, 9, 211-8.

Priododd yn 1905 Gwladys, merch W. Prichard Williams, a bu iddynt ferch a dau fab. Bu farw 12 Ebrill 1961.

## Awdur

**Syr Thomas Parry**, (1904 - 1985)

## Ffynonellau

*Who was who?*

gwybodaeth bersonol

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Hudson-Williams

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 71399909

Wikidata: Q13131852

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu